

fflach doniol

DR

LLEW LLETCHWITH

Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

GWYN MORGAN



Pennod 1

LLEW LLETCHWITH

Mewn pentref bach yng nghanol yr anialwch, roedd Llew Lletchwith yn byw. Fe oedd siryf pentre Gwlff Garw. Cafodd Llew ei enw rhyfedd oherwydd ei fod yn bwnglera'r pethau mwyaf syml.

Doedd Llew ddim yn gallu saethu'n syth. Doedd e ddim wedi rhoi yr un dyn, menyw na dihiryn chwaith yn y celloedd ers ugain mlynedd. Roedd gwe pry cop blith draphlith o gwmpas y celloedd.



Doedd neb wedi dod yn agos i Gwlff Garw ers i Gwthgan Jenkins fygwth saethu pob copa walltog yn y pentref. Roedd Gwthgan wedi bod yn ddraenen yn ystlys yr hen bentre tawel ar hyd ei oes. Yn y diwedd, cafodd ei anfon i'r carchar am grogi defaid.

"Fe ddof yn ôl un dydd a lladd pob copa walltog," meddai Gwthgan yn gynddeiriog, wrth gael ei lusgo i'r trêen ar ei ffordd i Garchar San Antonio.



Ffrind gorau Llew oedd Cen. Cen Cwrw. Fe oedd meddwyn pentre Gwlff Garw.

Breuddwydiai'r ddau yn aml dros wydryn yn y salŵn am gael Lwlw Lewis yn gariad.

Lwlw Lewis oedd perchennog salŵn Gwlff Garw. Hi oedd yr unig ferch hardd oedd yn byw yn y dre.

"Rydw i wedi penderfynu," meddai Siryf Lletchwith wrth Cen.

"Penderfynu beth?" gofynnodd Cen.

"Os dof i o hyd i ogof aur, neu ennill ar chwarae cardiau yn y salŵn, fe briodaf i Lwlw Lewis," atebodd Llew Lletchwith.

Pennod 2

SALŴN LWLW LEWIS

Uchafbwynt yr wythnos oedd clywed llais cras Lwlw Lewis yn canu. Wrth ganu, byddai'n cerdded o gwmpas y dynion oedd yn yfed chwisgi a chwrw cryf. Tra oedd hi'n canu a cherdded, gwenai arnynt, a rhoddai ei bysedd yn eu gwallt a'u clustiau.

Byddai Lwlw'n gwisgo dillad llachar iawn i ddenu llygaid y dynion. Yn wir, breuddwyd pob dyn yng Ngwlff Garw oedd cael Lwlw Lewis yn gariad.

Ar ddiwedd y gân, byddai pawb yn curo dwylo, neu'n saethu bwledi i'r awyr.

Nawr, gallai hyn fod yn beryglus iawn, yn arbennig i'r rhai oedd yn cysgu uwchben y bar. Byddai pob cowboi gwerth ei halen yn tanio'i wn i ddangos ei fod yn hapus.




Fel arfer, roedd y ffermwyr a'r pentrefwyr yn ymladd cyn mynd adref, i ddangos eu bod nhw wedi mwynhau diwrnod cyfan o wleda. Erbyn hynny, roedd pob un wedi gwario llawer o arian yn gamblo, neu'n yfed yn salŵn Lwlw Lewis.

Er gwaethaf hyn, roedd Lwlw yn berson dymunol iawn. Roedd hi'n gyfoethog hefyd. Roedd ganddi lais mawr, a llawer o arian yn y banc. Roedd y rhan fwyaf o ddynion Gwlff Garw yn prynu anrhegion iddi er mwyn denu ei sylw, ond doedd yr un ohonynt wedi hawlio sylw Lwlw Lewis hyd yn hyn.



Pennod 3 *Y NEGES HYNOD*



Bore dydd Sul roedd llawer o bobl Gwlff Garw yn mynd i'r eglwys, rhai ohonynt yn magu pennau tost. Byddai'r Parchedig Caddug Du BA, BD, MPhil yn siarad am amser maith.

Roedd pobl barchus y dre i gyd yno, yn eistedd yn y sedd flaen. Roedd Mynwent Morris (trefnwr angladdau), J. Arian Byw (rheolwr banc) a D. Asgwrn Cefn (y Maer) yn eistedd gyda'i gilydd. Yn y rhes gyferbyn, eisteddai eu gwragedd. Yn sydyn, daeth gwaedd uchel o'r stryd, o gyfeiriad y llythyrdy.

“Help!” gwaeddodd Dai Dosbarth
Cyntaf. “Och! Gwae! Daeth dialedd!”

Rhedodd yn syth i’r eglwys ac agorodd
y drysau led y pen.

“Mae e allan o’r carchar!” gwaeddodd
yn wyllt.

Syllodd pob enaid byw arno.

Doedd dim rhaid iddo esbonio, roedd
pawb yn gwybod am bwy roedd e’n sôn.

“Gwthgan Jenkins!” ebychodd pawb.


Gwaeddodd y gynulleidfa. Sgrechiodd y
menywod. Aeth y llygod hyd yn oed i’w

tyllau rhwng styllod y llawr i guddio rhag
Gwthgan Jenkins.

Doedd y plant erioed wedi gweld y
dihiryn, ond roedden nhw wedi clywed
digon amdano, a’i fod e wedi bygwth
lladd pob copa walltog ym mhentre Gwlff
Garw.

“Fe ddof yn ôl un dydd a lladd pob
copa walltog,” meddai llais Gwthgan
Jenkins ym meddyliau pawb.

“Pwyll nawr!” meddai’r Parchedig
Caddug Du.



"Pwyll yn wir!" adleisiodd y trefnwr angladdau. "Rwy'n mynd i archebu mwy o bren i wneud eirch."

Cododd y Maer ar ei draed.

"Gyfeillion! Does dim rhaid inni bryderu – mae siryf 'da ni."

"Allai Llew Lletchwith ddim achub ei hunan, heb sôn amdanom ni," meddai'r rheolwr banc. "Dydy e ddim yn mynd i rwystro Gwthgan Jenkins rhag ein lladd ni. Ta beth, bydd criw o'r saethwyr gorau yn y wlad gyda Gwthgan."

Penderfynwyd nôl y siryf, Llew Lletchwith.

"Bydd yn rhaid i bawb ymladd gyda'i gilydd yn erbyn dihiryn fel Gwthgan a'i griw," oedd cyngor Llew.

"Ond alla i ddim," meddai'r Maer, "rwy'n rhy bwysig."

"Alla i ddim," meddai'r banciwr, "mae llawer yn dibynnu arna i."

"Alla i ddim," meddai'r gweinidog, "pwy fydd yma i gladdu'r meirw?"

O un i un gwrthododd pawb ymladd yn erbyn Gwthgan Jenkins a'i griw.

Ar y gair, cyrhaeddodd Cen borth yr eglwys.

"Rwy'n barod i helpu," meddai Cen.

Syllodd y bobl arno. Chwarddodd pawb yn yr eglwys yn uchel.

"Mae gen i ofn nad ydych chi ddim yn mynd i rwystro Gwthgan a'i griw," meddai'r Maer.



Pennod 4

GWTHGAN JENKINS

Caeodd drysau mawr carchar San Antonio'n glep. Safodd Gwthgan y tu allan i'r carchar. Edrychodd ar wynebau caled ei griw. Yno, mewn rhes, roedd Cildwrn Puw, Tagydd Griffith, Llofrudd Davies, Jac Unllygeidiog, Twyllwr Thomas a Cythraul Powel.


"Croeso allan, Gwthgan," meddai Cythraul Powel.



"Diolch, fechgyn," atebodd Gwthgan. "Nawr, rŷn ni'n mynd i dalu'r pwyth yn ôl a lladd pob copa walltog yng Ngwlff Garw." Gwthiodd ei wn yn saff i'w wregys.

"O'r diwedd fe gawn ni ddial ar Siryf Lletchwith," meddai Llofrudd.

Chwarddodd y criw yn isel.




“Byddwn ni’n gallu crogi’r siryf a phob dafad o fan hyn i Alaska,” crechwenodd Jac Unllygeidiog.

“Byddwn, wrth gwrs,” meddai Gwthgan Jenkins.

Dechreuodd Gwthgan a’i griw farchogaeth ar draws y paith i bentref bach Gwlff Garw. Roedd gan bob un wn yn ei wregys a dryll hir ar wddw’i geffyl.



Pennod 5 **GWLFF GARW**



Roedd penawdau’r papur lleol mewn print bras.

RHAID FFOI!

Roedd pobl bwysig y dre wrthi’n llenwi eu cerbydau â phob math o gyfoeth.

“Rŷn ni’n mynd ar ein gwyliau,” meddai’r rheolwr banc a’i wraig.

“Rŷn ni’n ymweld â pherthnasau,” meddai’r Maer a’i wraig.

“Rŷn ni’n mynd i helpu’r achos yn y dre,” meddai’r gweinidog a’i wraig.

Ychydig iawn o bobl oedd ar ôl yng Ngwlff Garw.

Wrth gerdded ar hyd y stryd wag,
clywodd y siryf sŵn llefain yn dod o far y
salŵn. Cerddodd i mewn yn araf.

Yno yn eistedd ar ei phen ei hun roedd
Lwlw Lewis, perchennog y salŵn, a
menyw brydferthaf Gwlff Garw.

“Lwlw! Ti sy ’ma,” meddai’r siryf.

“Ie, siryf, fi sy ’ma – ar fy mhen fy
hunan bach, yn unig a thlawd, heb ffrind
yn y byd,” atebodd Lwlw Lewis.

“Beth sy’n bod, Lwlw?” gofynnodd
Llew Lletchwith.

“Mae Gwthgan Jenkins a’i griw yn siŵr
o ddistrywio fy salŵn,” meddai Lwlw.

“Rydw i wedi gweithio’n galed i gadw’r
salŵn mewn cyflwr da. Heb y salŵn, fydd
gen i unman i fynd.”

“Bydd Cen a fi yma, cofia,” meddai
Llew yn dyner.

“Diolch, siryf,” meddai Lwlw.
Gwenodd. Rhoddodd ei llaw ar ei law e.
“Ond rwy’n credu y bydd eisiau byddin i
rwystro Gwthgan Jenkins a’i griw. Maen



nhw'n chwilio am waed. Y peth gorau i chi ei wneud, siryf, yw diflannu o'r dre. Bydd Gwthgan am eich gwaed chi. Cofiwch mai chi yrrodd Gwthgan i'r carchar am grogi defaid, dros ugain mlynedd yn ôl."

"Cofiwch mai Cen oedd y saethwr gorau yng Ngwlff Garw ar un adeg," gwenodd Llew.

"Efallai wir, ond roedd hynny amser maith yn ôl," meddai Lwlw'n benisel.



Pennod 6


GWAED! GWAED! GWAED!

"Gwaed! Gwaed! Gwaed!" oedd cân y criw wrth groesi'r paith.

"Gwaed! Gwaed! Gwaed!" oedd ym meddwl pob un o'r dihirod.

"Gwaed! Gwaed! Gwaed!" oedd ar wefus pob un.

Erbyn hyn, roedd y dihirod yn edrych yn ofnadwy. Doedden nhw ddim wedi newid eu dillad ers dyddiau, nac ymolchi chwaith. Doedd neb wedi brwsio ei ddannedd. Doedd neb wedi cribo'i wallt. Roedd gwêr ym mhob un o'u clustiau. Roedden nhw'n arogli'n rhyfedd iawn hefyd.



"Rhaid inni gael gwaed Siryf Lletchwith ar ein dwylo heno, cyn noswyllo," meddai Gwthgan Jenkins.

Cododd cwmwl o lwch y tu ôl i'r ceffylau.

Yn y cyfamser, roedd Cen a Llew wrthi'n paratoi ar gyfer ymweliad Gwthgan a'i griw.

"Pan fydd y dihirod yn cyrraedd, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cuddio yn seler y salŵn," meddai Llew Lletchwith wrth Lwlw.




Daeth Lwlw i wybod mwy am Llew a Cen.

Dyn lletchwith oedd Llew wrth reddf. Doedd e ddim yn gallu cerdded heb faglu dros rywbeth. Roedd e'n bachu ei ddillad ar hoelion drwy'r amser. Pe bai banana ar lawr, y siryf Llew Lletchwith fyddai'n llithro arni'n gyntaf.


Er bod pawb yn meddwl am Cen fel meddwyn, ers talwm roedd e'n enwog am saethu pobl. Ond roedd e eisiau anghofio ei orffennol. Bellach, brwsio'r llawr oedd ei waith, yn salŵn Lwlw Lewis.



Daeth Lwlw i edmygu'r ddau yn fawr.
Roedden nhw wedi codi ei chalon yn
wyneb y fath fygythiad. Er nad oedd y
ddau ohonyn nhw'n bobl bwysig, roedden
nhw'n ddigon dewr i wynebu rhai o'r
dihirod mwyaf creulon a welodd y
Gorllewin Gwyllt erioed.




Pennod 7 *Y CYNLLUN*



Edrychodd y siryf ar y cloc. Roedd hi'n
dri o'r gloch y prynhawn. Gwelodd
gwmwl ar y gorwel.

“Dyma nhw'n dod,” meddai Llew gan
graffu i gyfeiriad y cwmwl.






Daeth Gwthgan a'i griw i mewn i Gwlff Garw ar eu ceffylau gan weiddi a thanio'u drylliau. Ond heb yn wybod iddyn nhw, roedd rhaff dynn ar ganol y stryd fawr.

Cwmpodd y ceffylau a'r criw ar eu hwynebau.

"Beth ddigwyddodd?" gofynnodd Gwthgan.



"Mae'r diawl wedi gosod trap inni," meddai Cythraul.

"Does 'na neb yma," gwaeddodd Llofrudd, "maen nhw i gyd wedi ffoi."

Chwarddodd y criw yn uchel ac aflafar.

"Mae pawb yn y pentre wedi mynd, gan gynnwys y Siryf Llew Lletchwith," meddai Jac Unllygeidiog.



“Ond rydw i yma o hyd,” gwaeddodd llais o rywle.

“Pwy sy ’na?” gofynnodd Gwthgan.

“Alan,” atebodd y llais.

“Alan pwy?” holodd Gwthgan.

“Ar lan y môr mae rhosys cochion,” chwarddodd y llais. “Rydyn ni’n mynd i gael gêm bach gyda chi.”

“Dewch allan, Lletchwith,” gwaeddodd Gwthgan. “Dewch i ymladd fel dynion dewr.”


“Dim gobaith,” meddai Llew.

“Gwasgarwch!” sibrydodd Gwthgan wrth ei griw. Gwasgarodd y criw, un i bob adeilad yn y dre, i aros i Llew Lletchwith ymddangos. Roedd pob un yn cadw llygad barcud ar y stryd, pob un â’i law ar ei wn, rhag ofn i Llew neidio o ryw gornel.




Pennod 8

TRICIAU LLEW LLETCHWITH



Cafodd Cildwrn Puw fraw pan gwmpodd y siandelïer arno o nenfwd y salŵn, a'i adael yn llonydd ar y llawr.

Cafodd Tagydd Griffith fraw pan laniodd llond sach o flawd ar ei ben o'r llofft uwchben y stablau. Gwelodd lawer o sêr bryd hynny, er nad oedd hi wedi nosi.



Disgynnodd pot blodau trwm gwraig y rheolwr banc ar ben Llofrudd Davies.



Wrth edrych i mewn drwy dwll bach y clo, cafodd Jac Unllygeidiog fraw pan wthiodd rhywun fys i'w unig lygad.


Cwmpodd yn ôl a tharo'i ben yn erbyn
cwpwrdd llestri. Disgynnodd y cwbl ar ei
ben, a'i fwrw'n anymwybodol.



Aeth Twyllwr Thomas i mewn i'r
eglwys. Cafodd fraw wrth i'r Beibl mawr
ddisgyn ar ei ben. Gorweddai yn gorff ar
y llawr rhwng y seddau talsyth.



Edrychodd Cythraul Powel i mewn i'r
siop offer fferm, a chafodd fraw pan
deimlodd wyneb rhaw yn disgyn ar
wastad ei ben.



Pwy oedd wrthi'n cael gwared ar y dihirod?

Wel, Cen Cwrw a Llew Lletchwith, wrth gwrs. Cafodd y ddau lawer iawn o hwyl yn cropian yn dawel bach o gwmpas y pentre, yn chwilio am y dihirod a'u dychryn fesul un. Chawson nhw ddim hwyl felly ers i'r Maer gwympo i waelod y pydew dwfn yng nghanol Gwlff Garw ers talwm. Yn eu ffordd eu hunain, roedden nhw wedi helpu i gadw Gwlff Garw yn fyw. A doedden nhw ddim wedi saethu'r un dihiryn ...

"Mae mwy nag un ffordd o gael Wil i'w wely," meddai Cen.

"Roeddwn i'n meddwl mai Gwthgan oedd ei enw," ebe Llew.

Pennod 9

Y DIHIRYN MWYAF

Dim ond un dihiryn oedd heb ei ddal. Gwthgan Jenkins. Y crogwr defaid, y gwalch mwyaf a welodd Gwlff Garw erioed.

Heb yn wybod i Cen a Llew roedd Gwthgan wedi sleifio i'r salŵn i gael dracht o chwisgi. Clywodd lais yn crio'n dawel. Roedd y sŵn crio yn dod o gyfeiriad y seler. Pan agorodd y drws, ffrydiodd golau dydd i lawr y grisiau a dallu Lwlw Lewis, perchennog siapus y salŵn.




“Lwlw!” meddai Gwthgan. “Wel, dyna lwc i mi ddod o hyd i ti yma.”

“Cadw draw!” gwaeddodd Lwlw.

“Mami!”

Gafaelodd Gwthgan ynddi yn ddiseremoni.

“Dere ’da fi,” meddai Gwthgan. “Fe laddwn ni Llew Lletchwith cyn diwedd y dydd.”



Llusgodd Lwlw i fyny’r grisiau.


Ceisiodd hithau ei gicio a’i bwnio, ond yn ofer. Roedd Gwthgan yn gryf a chyhyrog. Roedd yn fwli hefyd. Taflodd y cadeiriau a’r byrddau o’r naill ochr a mynd allan i’r stryd. Erbyn hyn, roedd Gwthgan Jenkins yn dal Lwlw o’i flaen.

“Lletchwith!” gwaeddodd Gwthgan.

“Lletchwith! Lle’r wyt ti?”

Camodd y siryf i ganol y stryd fawr.

“Dim ond ti sy ar ôl, Gwthgan,” meddai’r siryf. “Mae dy ffrindiau drwg i gyd yng nghell y dre.”



“Un cam o’i le,” gwaeddodd Gwthgan, “a bydd y fenyw bert ’ma’n colli ei hwyneb am byth.”

Symudodd Llew yn ôl.

“Y dihiryn!” meddai’r siryf.


“Go dda, yntê!” meddai Gwthgan. “Os byddi di’n ceisio fy nilyn i, fe ladda i’r fenyw.”

Daliodd Gwthgan ei ddryll wrth ben Lwlw. Edrychodd Llew i gyfeiriad Lwlw. Roedd ofn yn llenwi ei llygaid. Rhewodd Llew am eiliad. Sylweddolai nawr ei fod e’n caru Lwlw Lewis. Doedd e ddim am beryglu ei bywyd ar unrhyw gyfrif.

“O’r gorau, Jenkins,” meddai’r siryf.

“Paid â brifo’r fenyw.”

Taflodd ei wn i’r llawr.



“O’r diwedd, rŷn ni’n gallu siarad yn synhwyrol,” meddai Gwthgan. “O’r diwedd, ar ôl ugain mlynedd yng nghell ddyfnaf San Antonio, fe alla i dalu’r pwyth yn ôl.”

“Beth? Y cnaf!” chwyrnodd Llew. “Fe ddwedaist ti na fyddet ti’n brifo’r fenyw.”

“Ond ddwedais i ddim na fyddwn i’n dy brifo di, y llabwst,” meddai Gwthgan. “Rwyd ti a’th siort yn haeddu marw.”

Anelodd ei ddryll yn syth at Llew Lletchwith.


“Offryma dy weddi olaf, y sglyfaeth!” meddai Gwthgan.




Pennod 10

Y SACH FLAWD

Welodd Gwthgan ddim o Cen, Cen Cwrw, ar do'r siop nwyddau. Roedd Cen wedi llusgo sach flawd i fyny i ben y to, ac wedi ei chlymu wrth raff. Crogai un pen y rhaff wrth arwydd y tu allan i'r siop, ac wrth i Gwthgan anelu'i wn at Llew, gollyngodd Cen y sach flawd yn rhydd.



Heb eiliad i'w golli glaniodd y sach ar ben Gwthgan Jenkins a'i lorio. Wrth daro Gwthgan rhwygodd y sach a thaflu cymylau o flawd am ei ben. Yn y sgarmes, disgynnodd y gwn o'i law, ac ni fedrodd ladd Lwlw na Llew, y siryf dewr.



Rhedodd Lwlw i freichiau'r siryf, a chladdu ei phen yn ei fynwes.

"Rwy'n dy garu di," meddai Lwlw Lewis.

"Go dda," gwenodd Llew Lletchwith. Trodd i chwilio am Cen. Yng nghanol yr holl ddryswch, roedd Cen yn ceisio cydbwyso ar grib y to.

"Help!" gwaeddodd Cen.

"Gwylia, Cen, neu fe fyddi di'n cwmpo," gwaeddodd Llew.

Ond roedd hi'n rhy hwyr, ac fe lithrodd Cen oddi ar y to ac ar ei ben i gasgen ddŵr y ceffylau. Chwarddodd Lwlw a Llew dros bob man.

Chwarddodd y ddau yn uwch wrth weld Gwthgan Jenkins, wedi ei orchuddio â blawd gwyn, yn codi fel ysbryd oddi ar y llawr. Roedd e'n sigledig iawn.

Wrth i Llew gyrraedd y celloedd am y tro olaf cafodd y criw fraw ofnadwy wrth weld ysbryd Gwthgan Jenkins yn cerdded tuag atynt.

"Help!" meddai'r dihirod. "Mae ysbryd Gwthgan wedi dod i'n poenydio."

Cadwyd y dihirod yn y ddalfa, hyd nes y daeth ceidwad Carchar San Antonio yno i'w casglu.

A beth am Llew Lletchwith a Lwlw Lletchwith? Cawson nhw dri bachgen a merch, pob un ohonynt yr un mor lletchwith â'u tad, a phob un mor bert â'u mam.



"Gwaed! Gwaed! Gwaed!" gwaeddodd Gwthgan Jenkins pan ddaeth allan o Garchar San Antonio. Dial roedd e eisiau – dial ar y siryf Llew Letchwith a phob copa walltog ym mhentre bach Gwlff Garw! ...



£3.50

Mae Gwyn Morgan o Aberdâr yn enwog am ei lyfrau Cymraeg cyffrous a digri – a Dai Owen am y lluniau gwyach mae'n eu darparu ar eu cyfer.

Cynllun clawr: Elgan Davies
Llun clawr: Dai Owen

ISBN 1-85596-424-4



IDREF WEN